# Asesiad Effaith Cyfansawdd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
  - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
  - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
  - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

  Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.
- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.
- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

# Asesiad 10/04/2026: Ardoll Ymwelwyr

**Awdur:** Roland Wyn Evans (ECON A CMND)

**Teitl Swydd:** Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned

**Dyddiad**: 10/04/2026

**Fersiwn:** Ardoll Ebrill 2026

## CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

### 1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Gweithredu Strategaeth/Cynlluniau/Deddfwriaeth Genedlaethol yn lleol (cyfeiriwch at unrhyw AEC cenedlaethol ac ystyried effaith leol)
- Polisïau, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

### 2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Mae Cyngor
Gwynedd yn edrych i gyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar gyfer pob llety gwyliau ac arosiadau dros nos cymwys fel a amlinellir yn neddf Llety Ymwel wyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 o fewn i ffiniau awdurdod lleol Cyngor Gwynedd o'r 1 Hydref
2027. Bydd hyn ar gyfer pob darparwr llety fydd yn gorfod cofrestru ar gofrestr genedlaethol o ddarparwyr llety.

Bydd yr Ardoll yn cael ei chodi ar gyfradd y person
y noson fel a amlinellir yn y ddeddf. Bydd yr Ardoll yn cael ei chasglu gan y darparwr llety. Bydd y cyfraddau cychwynnol fel a amlygir yn y dded df:

| Math o lety | Cyfradd (y person, y noson) |
| --- | --- |
| Maes gwersylla (Pebyll) a llofftydd a rennir (fel hosteli a dorm) | £0.75c (0.90c efo TAW) |
| Pob math arall o lety gwyliau | £1.30 (£1.56 efo TAW) |

Eithriadau

Ni fydd disgwyl talu'r ardoll os ydych:

- O dan 18 oed ac yn aros mewn gwersyll neu ystafell a rennir (megis hostel neu dorm);
- Yn aros am fwy na 31 noson mewn un arhosiad; ac
- Mewn llety argyfwng neu dros dro wedi ei drefnu gan gyngor lleol.

Ad-daliadau

Bydd y canlynol yn gymwys i ymgeisio am ad-daliad gan Awdurdod Cyllid Cymru:

- Pobl anabl sy'n talu costau ardoll ychwanegol pan fydd ganddynt ofalwr; a
- Pobl sy'n ffoi o drais yn y cartref.

**3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?**

Mae'r Canllawiau yn nodi'r canlynol fel ymgynghorai gorfodol y dylid eu cynnwys wrth ddatblygu'r Ardoll:

- Pobl leol, h.y. pobl sy'n byw, gweithio neu astudio yn ardal yr Awdurdod Lleol.
- Cynghorau cymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol.
- Bwrdd gwasanaethau cyhoeddus (yn ôl ystyr Rhan 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol).

- Y prif gyngor ar gyfer ardal sy'n ffinio ag ardal y cyngor sy'n ymgynghori, h.y. cynghorau cyfagos, fel eu bod yn ymwybodol o'r cynlluniau. Efallai y bydd yr awdurdodau hefyd yn dymuno ystyried a oes unrhyw gyfleoedd ar gyfer cydweithio. Yn achos Gwynedd mae hyn yn cynnwys Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Phowys.
- Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono yn ardal yr Awdurdod Lleol
- Pwyllgor ar y cyd corfforaethol sy'n cynnwys fel aelod o leiaf un aelod gweithredol uwch o'r prif gyngor.
- Sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau sy'n gweithio ym maes twristiaeth, neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, yn ardal y prif gyngor; a/neu'n hyrwyddo neu'n hwyluso twristiaeth yn ardal y cyngor.
- Lle mae'r cynnig i gyflwyno'r ardoll, dylai'r ymgynghoriad gynnwys pob person a nodir yn yr adroddiad yn rhinwedd adran 47(5)(c) o'r Ddeddf (sy'n cyfeirio at aelodaeth arfaethedig y fforwm partneriaeth ardoll ymwelwyr) nad yw fel arall yn ymgynghorydd gorfodol.

Bydd y Cyngor yn gweithio trwy strwythurau Partneriaeth Gwynedd & Eryri 2035 yn ogystal er mwyn datblygu'r cynigion ac yngynghori yn lleol.

## CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

**4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?**

Oes

**Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Gwybodaeth |
|---|---|---|
| Ymgynghoriad Cyhoeddus | Mai - Gorffennaf 2026 | Os cymeradwyir ymgynghori gan y Cyngor Llawn bydd proses ymgynghori cyhoeddus ffurfiol gan ddilyn canllawiau Gunning yn cael ei weithredu i gyrchu barn. |
| Datblygu Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 | 2019 - 2023 | Ymgynghorwyd yn helaeth wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol ar gyfer economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal. |
| Ymgynghori anffurfiol | 2023 - 2025 | Cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol ac fe holwyd barn trwy Holiadur Trigolion Gwynedd a Holiadur Busnes Gwynedd. |

## 5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

| | Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol | Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol |
|---|---|---|
| **Hil** | Rydym wedi ystyried yr ymgynghoriadau a wnaethpwyd wrth ddatblygu Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 yn ogystal â'r hyn a nodir uchod o ran holiaduron cychwynnol ac ymgysylltu gyda busnesau, unigolion a chymunedau.<br><br>Wrth ddatblygu'r Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 defnyddiwyd llawer o waith ymchwil ac ystadegau lleol er mwyn llunio ein hegwyddorion a'n blaenoriaethau gweithredu.<br><br>Mae'r ymchwil a'r ystadegau'n cynnwys:<br><br>• Adolygiad Llety Twristiaeth Lleol (2018/19, Cyngor Gwynedd) | Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith.<br><br>Mae'r Adroll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys sy'n cynnwys pobl sy'n byw yng Nghymru yn ogystal â ymwelwyr o wledydd eraill. Bydd modd i bawb fuddio o'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol. Byddwn yn ceisio ymgysylltu yn gynhwysol trwy ddarparu fersiwn hawdd i'w ddarllen. Gallwn ystyried cynnig cyfieithu i ieithoedd eraill nad yw'n Gymraeg neu'n Saesneg. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Adolygiad Ymwelwyr Croeso Cymru a Chyngor Gwynedd (2019, Beaufort Research)<br>• Adolygiad Elwa o Dwristiaeth – ystyriaeth o'r opsiynau i ariannu blaenoriaethau yn y dyfodol (Mai 2019, Blue Chip Tourism a RJS Associates Cyf).<br>• Adolygiad o'r Bartneriaeth Rheolaeth Cyrchfan (Hydref 2019, Blue Chip Tourism a RJS Associates Cyf.)<br>• Cynllun Eryri (2020, Parc Cenedlaethol Eryri)<br>• Strategaeth Parcio a Theithio Cynaliadwy Yr Wyddfa ac Ogwen (2020, Parc Cenedlaethol Eryri)<br>• Cynllun Cyngor Gwynedd (2018, Cyngor Gwynedd)<br>• Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau (Rhagfyr 2020, Cyngor Gwynedd)<br>• Ymchwil i sefyllfa Cartrefi modur yng Ngwynedd (Medi 2021, Cyngor Gwynedd)<br>Rydym hefyd wedi ystyried yr asesiadau effaith cenedlaethol sydd wedi eu ll unio gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth.<br>Mae arfer dda gan ardaloedd eraill hefyd wedi ei ystyried e.e. Caeredin.<br>Mae asesiadau effaith integredig sydd wedi ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar sail ymgynghoriad cyhoeddus, ystadegau a gwaith ymchwil a gomisiynwyd ganddynt.<br>Mae'r asesiad yn nodi bod twristiaeth yn dod ag effeithiau cadarnhaol a negyddol i Gymru – er enghraifft trwy fuddion economaidd, cyflogaeth, cadwraeth safleoedd ayb, ond hefyd mae'n dod a heriau i gymunedau | |

| | | |
|---|---|---|
| | oherwydd y pwysau ar wasanaethau lleol a seilwaith a rennir gyda preswylwyr a heriau ail-gartrefi ac effeithiau amgylcheddol.<br><br>Rydym wedi comisiynu Asesiadau Effaith Economaidd a Chydraddoldeb gan ymgynghorydd profiadol. | |
| **Anabledd** | Gweler tystiolaeth blaenorol a nodwyd o ran Hil. | Mae darpariaeth yn y ddeddf i Awdurdod Cyllid Cymru roi ad-daliadau i bobl sy'n cael budd-dal anabledd sydd yng nghwmni rhywun sy'n darparu gofal, cefnogaeth neu gymorth iddynt. Bydd yr ymgynghoriad yn defnyddio fersiwn hawdd I'w ddarllen a gallwn gynnig opsiwn print bras ar gais. Gallai buddsoddiadau o'r Ardoll wella gwasanaethau a mynediad mewn safleoedd trwy e.e. osod rampiau, cyfleusterau cyhoeddus hygyrch i bawb, gwella mynediad i draethau neu llwybr yr arfordir gydag cadeiriau olwyn pwrpasol er enghraifft. |
| **Rhyw** | Gweler tystiolaeth a gwybodaeth blaenorol. | Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith.<br>Mae'r Ardoll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys. Bydd modd i bawb fuddio o'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol. Gallai buddsoddiadau o incwm Ardoll gael eu blaenoriaethu i gynlluniau sgiliau neu i wella cyflogau yn y sector ac ymestyn y tymor yn lleol. Mae llawer o weithlu'r diwydiant yn fenywod a gallai hyn gael effaith bositif ar eu cyflogaeth. |
| **Oedran** | Gweler ymateb blaenorol o ran tystiolaeth. | Nid oes disgwyl i bobl ifanc o dan 18 oed dalu ar y raddfa is sy'n bositif ar gyfer ymweliadau |

| | | |
|---|---|---|
| | | addysgiadol neu ymweliadau i feysydd gwersylla neu hosteli.<br>Mae'r Ardoll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys. Bydd modd i bawb fuddio o'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol.<br>Gallwn ystyried darparu'r wybodaeth ymgysylltu mewn dull hygyrch yn ôl y gofyn.<br>Gallai buddsoddiadau o'r Ardoll gael eu blaenoriaethu i gefnogi prosiectau allai fod o fudd i bob oedran e.e. prosiectau mynediad i bobl hyn, gofodau dementia gyfeillgar, digwyddiadau a gweithgareddau i blant a theuluoedd ayb. |
| **Crefydd a Chred** | Gweler ymateb blaenorol i dystiolaeth a gwybodaeth. | Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith.<br>Mae'r Ardoll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys. Bydd modd i bawb fuddio o'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol.<br>Gallai buddsoddiadau o'r Ardoll gael eu blaenoriaethu i gefnogi prosiectau allai fod o fudd i bawb. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Gweler tystiolaeth a gwybodaeth blaenorol. | Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith.<br>Mae'r Ardoll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys. Bydd modd i bawb fuddio o'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol.<br>Gallai buddsoddiadau o'r Ardoll gael eu blaenoriaethu i gefnogi prosiectau allai fod o fudd i bawb. |
| **Ail-bennu rhywedd** | Gweler tystiolaeth a gwybodaeth blaenorol. | Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith.<br>Mae'r Ardoll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys. Bydd modd i bawb fuddio o'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gallai buddsoddiadau o’r Ardoll gael eu blaenoriaethu i gefnogi prosiectau allai fod o fudd i bawb. |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Gweler tystiolaeth a gwybodaeth blaenorol. | Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith.<br>Mae’r Ardoll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys. Bydd modd i bawb fuddio o’r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol.<br>Gallai buddsoddiadau o’r Ardoll gael eu blaenoriaethu i gefnogi prosiectau allai fod o fudd i bawb. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Gweler tystiolaeth blaenorol. | Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith.<br>Mae’r Ardoll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys. Bydd modd i bawb fuddio o’r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol.<br>Gallai buddsoddiadau o’r Ardoll gael eu blaenoriaethu i gefnogi prosiectau allai fod o fudd i bawb. |
| **Iaith Gymraeg** | Gweler ymateb blaenorol. | Yn ôl asesiad Llywodraeth Cymru, gallai effeithiau ar y Gymraeg ymddangos os yw'r ardoll yn lleihau cystadleurwydd a phroffidioldeb y sector twristiaeth, sy'n cyflogi siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys yr ymwelwyr hynny rhag cynnal ymweliadau addysgol â chyrchfannau yng Nghymru.<br>Fe allai’r ardoll gefnogi'r diwydiant twristiaeth a chyfleoedd cyflogaeth neu fentrau mewn rhanbarthau Cymraeg eu hiaith.<br>Mae'n debygol y bydd effaith fach iawn/dim effaith fesuradwy oherwydd yr ardoll ar y defnydd o'r Gymraeg heblaw sylweddoli efallai y byddai llai o |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg petai colled o ran y galw. Nid oes tystiolaeth yn dangos y byddai pobl yn gadael eu cymunedau oherwydd ardoll ymwelwyr. |
| **Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol** | Gweler ymateb blaenorol. | Yn ôl asesiad integredig Llywodraeth Cymru, fe allai trethi uwch atal teithwyr sydd ar gyllideb neu unigolion sydd ag incwm is rhag ymweld ag ardaloedd sy'n mabwysiadu ardoll, gan godi pryderon o bosibl am degwch a chynwysoldeb. Fodd bynnag, mae'r ardoll wedi'i chynllunio gyda dwy gyfradd a fydd yn cael eu cymhwyso fesul person y noson. Y gyfradd sylfaenol fydd £1.30 ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o lety a bydd cyfradd is ar gyfer hosteli a safleoedd gwersylla o £0.75. Mae ychwanegu cyfradd is yn cydnabod bod cost y mathau hyn o lety yn is o gymharu ag eraill. Yn ogystal, ni fydd pobl ifanc dan 18 mlwydd oed wedi eu cynnwys yn y tâl a gyfrifir ar gyfer yr ardoll ymwelwyr mewn arosiadau cyfradd is. Golyga hyn na fydd raid iddynt dalu'r ardoll pan gaiff ei throsglwyddo gan ddarparwr gan na fyddant wedi eu cynnwys yng nghyfrifiadau'r ardoll (h.y. nid oes ardoll i'w throsglwyddo). Er mwyn lleihau'r risg i'r ardoll ddod yn rhwystr i bobl dan anfantais economaidd gymdeithasol sy'n mynd ar wyliau yng Nghymru, gall Gweinidogion Cymru hefyd asesu a newid y cyfraddau a nodir yn y ddeddfwriaeth. Y bwriad yw y bydd y refeniw o'r ardoll yn helpu i liniaru unrhyw effeithiau andwyol drwy ddarparu buddion o welliannau i'r ardal leol, trwy |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddefnyddio'r refeniw i helpu i gynnal ac adfywio'r gwasanaethau a'r seilwaith lleol. |
| **Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd** | Gweler ymateb blaenorol. | Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith.<br>Mae darpariaeth yn y ddeddf i Awdurdod Cyllid Cymru roi ad-daliadau i bobl sy'n cael budd-dal anabledd sydd yng nghwmni rhywun sy'n darparu gofal, cefnogaeth neu gymorth iddynt. Bydd yr ymgynghoriad yn defnyddio fersiwn hawdd I'w ddarllen a gallwn gynnig opsiwn print bras ar gais.<br>Gallai buddsoddiadau o'r Ardoll wella gwasanaethau a mynediad mewn safleoedd trwy e.e. osod rampiau, cyfleusterau cyhoeddus hygyrch i bawb, gwella mynediad i draethau neu llwybr yr arfordir gydag cadeiriau olwyn pwrpasol er enghraifft. |
| **Hawliau Dynol** | Gweler ymatebion blaenorol. | Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith.<br>Mae'r Ardoll mewn lle i'w thalu gan bawb cymwys. Bydd modd i bawb fuddio o'r buddsoddiadau fydd yn cael eu gwneud gydag incwm yr Ardoll yn lleol. |
| **Arall** | Dim | Dim |

**6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?**

Mae bylchau o ran tystiolaeth yn bodoli ynghylch effaith cyflwyno Ardoll mewn ardal leol ac rydym wedi comisiynu cymorth i geisio ymateb i hynny gan ystyried yr ymchwil sydd wedi ei gynnal gan Lywodraeth Cymru – ond bydd rhai bylchau yn parhau oherwydd dibynadwyedd y data sydd ar gael.

Gobeithio y bydd modd ymateb i rai o'r bylchau hyn yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus os bydd y Cyngor Llawn yn cymeradwyo cymryd y cam yma.

**7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?**

Ni chredir y bydd yna effaith gronnus ar unrhyw grwpiau.

**8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?**

Bydd yr Ardoll yn cefnogi gweithredu Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 sy'n annog parch a dealltwriaeth o ddiwylliant, iaith, rhinweddau arbennig a chymunedau'r ardal. Gallai buddsoddiadau incwm yr Ardoll gynnwys gweithio gyda grwpiau sy'n cynrychioli nodweddion er mwyn gweithredu prosiectau penodol i gael gwared a cham-wahaniaethu.

Trwy ymgysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion penodol byddwn yn gallu adnabod yr hyn mae grwpiau o fewn ein cymunedau, a'r pobl sy'n ymweld, ei angen er mwyn sicrhau tegwch i bawb.

Bydd y Fforwm Partneriaeth Ardoll Lleol a gweithredu Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 yn sicrhau bod lleisiau amrywiol yn cael eu clywed. Gallai prosiectau a gefnogir gan yr incwm Ardoll yn lleol gefnogi gweithgareddau penodol i hyrwyddo cyfleodd cyfartal o fewn ein cymunedau ac ar gyfer y rhai sy'n ymweld.

Bydd sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll fel rhan o drefniadau gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035 yn sicrhau bod gweithredu yn cael ei flaenoriaethu ar sail barn y Bartneriaeth a phartneriaid allweddol.

Mae strwythur Gwynedd ac Eryri 2035 yn bartneriaeth sy'n annog cydweithio ymysg sector twristiaeth Gwynedd ac Eryri, cymunedau a mentrau lleol ac awdurdodau cyhoeddus.

Bydd sefydlu cynllun cyfathrebu yn hanfodol er mwyn rheoli'r neges os yw Gwynedd yn mabwysiadu'r ardoll ac osgoi unrhyw ddrwg-deimlad neu gyhuddiadau ein bod yn hiliol.

**9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)**

Wrth ddatblygu Cynllun Gwynedd ac Eryri
2035, ystyriwyd nifer o ffactorau oedd yn creu rhwystredigaeth I gymunedau yn sgil niferoedd yr ymwelwyr I rai ardaloedd ac effaith ail-gartrefi, amodau cyflogaeth yn y sector a'r angen I ymateb trwy gael cynllun economi ymweld cynaliadwy yn ei le.

Bydd gweithgareddau a gefnogir trwy weithredu'r Ardoll yng Ngwynedd yn ceisio cynorthwyo I wella'r darpariaethau lleol ac fe allai e.e. wella t rafnidiaeth cyhoeddus wella mynediad trigolion at gyfleon gwaith. Fe allai arwain at ymestyn y tymor fyddai yn ei dro yn gwella cyfleon cyflogaet h trwy'r flwyddyn yn y sector.

Bwriedir ymgysylltu efo cynrychiolwyr ar ran grwpiau gwarchodedig wrth ddatblygu a blaenoriaethu Cynllun Gweithredu blynyddol gan y Bartn eriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy a'r drefn o flaenoriaethu fydd yn cael ei fabwysiadu gan y Fforwm Partneriaeth Ardoll.  Bydd hyn yn ein ca niatáu i adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu pobl â nodweddion gwarchodedig o fewn y cymunedau ac ymwelwyr posib.

**10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â  gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â  pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Pe mabwysiadir yr Ardoll yng Ngwynedd, bydd yn cefnogi gweithredu Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035. Mae'r Cynllun yn hyrwyddo economi ymweld i bawb ac yn annog parch a dealltwriaeth o ddiwylliant, iaith, rhinweddau arbennig a chymunedau'r ardal gyda'r weledigaeth a'r egwyddorion canlynol:

"Economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri"

Rydym wedi mabwysiadu egwyddorion pendant i hyrwyddo'r iaith:

1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth
1. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd
1. Sicrhau bod cymunedau Gwynedd ac Eryri'n cael mwy o fantais nac anfantais

O ganlyniad i fuddsoddi incwm yr Ardoll er mwyn gwireddu'r weledigaeth a'r egwyddorion, disgwylir y bydd mwy a gwell ymwybyddiaeth a defnydd o'r Gymraeg gan y sector economi ymweld, yn ogystal a chyfleon gyrfa mwy sefydlog o fewn y sector i bobl leol.

Gallai incwm yr Ardoll hefyd gefnogi gweithgareddau ymchwil a datblygu er mwyn cefnogi a datblygu'r Gymraeg yn ein cymunedau a'n busnesau. Byddai hefyd o gymorth i weithredu elfennau o Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd 2023-2033, yn y meysydd blaenoriaeth gwaith a gwasanaeth, cymunedau ac ymchwil a thechnoleg

**11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?**

1. Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.
2. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.
3. Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol y gallai'r Ardoll Ymwelwyr gefnogi pe byddai'n cael ei fabwysiadu:
    - GWYNEDD LEWYRCHUS - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
    - GWYNEDD GYMRAEG - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.
    - GWYNEDD WERDD - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
    - GWYNEDD EFFEITHLON - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

**CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau**

**12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?**

Bydd

**Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau?**

**Caffael:**

Byddwn yn dilyn trefniadau caffael corfforaethol y Cyngor gan sicrhau bod cymalau a sgorio o ran yr iaith, dyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ran o'n prosesau.

**Partneriaeth:**

Pe bydd Ardoll yn cael ei fabwysiadu yng Ngwynedd, bydd disgwyl i ni weithio mewn partneriaeth wrth flaenoriaethu unrhyw fuddsoddiad incwm Ardoll yn yr ardal a  byddwn yn defnyddio Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 er mwyn gwneud hynny.

**CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer**

**13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?**

**Effaith Gadarnhaol Sylweddol:**
O ystyried y dystiolaeth bresennol gallai rhai effeithiau negyddol gael eu codi, ond mae ail-fuddsoddi'r arian a gynhyrchir gan yr ardoll efo'r potensial o gefnogi deilliannau positif  ar y diwydiant, ein cymunedau, yr amgylchedd a'r Gymraeg.

Gall mabwysiadu Ardoll yn ardal Gwynedd gefnogi gwireddu gweledigaeth ac egwyddrion Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035. O weithredu trwy strwythur y Bartneriaeth, sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll Gwynedd a gweithredu'r cynllun yn effeithiol ac yn gynhwysol, monitro gweithrediad trwy fesuryddion newydd, bydd modd ystyried ac ymateb i unrhyw effeithiau negyddol mewn modd cadarnhaol.

**Effaith Negyddol Sylweddol:**
Mae asesiad integredig Llywodraeth Cymru yn nodi:

- Newidiadau yng ngwariant ymwelwyr – er mwyn darparu ar gyfer cost ychwanegol yr ardoll, efallai y bydd rhai ymwelwyr yn gwario llai mewn meysydd eraill (er enghraifft, gwariant eilaidd ar brydau bwyd neu adloniant). Gall hyn effeithio ar refeniw busnesau ehangach yn yr ardal leol sy'n elwa o wariant ymwelwyr.
- Newidiadau yn nifer yr ymwelwyr - yn y sefyllfa fwyaf eithafol fe all rhai ymwelwyr ddewis ymweld ag ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol h.y. y rhai sydd ddim yn codi ardoll, neu wlad arall yn gyfan gwbl, er mwyn osgoi cost ychwanegol yr ardoll. Mae ymchwil yn awgrymu bod hyn yn fwy tebygol yn y cyfnod cyflwyno cychwynnol, ond y gallai'r effeithiau hyn leihau wrth i dderbyn yr ardoll gynyddu.
- Gallai'r ardoll ymwelwyr gael effeithiau cymysg ar wahanol grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, yn dibynnu ar esemptiadau a sut mae'r refeniw yn cael ei ddefnyddio.
- Gallai'r ardoll ymwelwyr gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar yr amgylchedd, yn dibynnu ar y newidiadau yn nifer yr ymwelwyr ac ail-fuddsoddiad y refeniw.

**14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol**

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi rhai themâu allweddol drwy'r broses asesu effaith:

- Gallai'r ardoll ymwelwyr gynhyrchu refeniw ychwanegol i awdurdodau lleol fuddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.
- Newidiadau yng ngwariant ymwelwyr – er mwyn darparu ar gyfer cost ychwanegol yr ardoll, efallai y bydd rhai ymwelwyr yn gwario llai mewn meysydd eraill (er enghraifft, gwariant eilaidd ar brydau bwyd neu adloniant). Gall hyn effeithio ar refeniw busnesau ehangach yn yr ardal leol sy'n elwa o wariant ymwelwyr.

- Newidiadau yn nifer yr ymwelwyr - yn y sefyllfa fwyaf eithafol fe all rhai ymwelwyr ddewis ymweld ag ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol h.y. y rhai sydd ddim yn codi ardoll, neu wlad arall yn gyfan gwbl, er mwyn osgoi cost ychwanegol yr ardoll. Mae ymchwil yn awgrymu bod hyn yn fwy tebygol yn y cyfnod cyflwyno cychwynnol, ond y gallai'r effeithiau hyn leihau wrth i dderbyn yr ardoll gynyddu.
- Gallai'r ardoll ymwelwyr gael effeithiau cymysg ar wahanol grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, yn dibynnu ar esemptiadau a sut mae'r refeniw yn cael ei ddefnyddio.
- Gallai'r ardoll ymwelwyr gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar yr amgylchedd, yn dibynnu ar y newidiadau yn nifer yr ymwelwyr ac ail fuddsoddiad y refeniw.
- Fe allai mabwysiadu'r ardoll hefyd arwain at wella cyflogaeth o fewn y sector trwy ymestyn y tymor.

Er bod rhai effeithiau negyddol wedi'u codi a'u cofnodi, mae gan ail-fuddsoddi'r arian a gynhyrchir gan yr ardoll gan awdurdodau lleol y potensial i gefnogi'r diwydiant hwn, er enghraifft drwy wella cynnig twristiaeth Cymru neu ansawdd ein hatyniadau presennol. Yn y tymor hwy, gall hyn gryfhau cynnig Cymru a chefnogi'r duedd barhaus o dwf cynaliadwy yn nifer yr ymwelwyr.

Mae mabwysiadu a gweithredu Ardoll yng Ngwynedd yn mynd i fod yn gerbyd i sicrhau economi ymweld cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri.

Bydd Fforwm Partneriaeth Ardoll Gwynedd yn cyfarfod oddi mewn i strwythur gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035 er mwyn mesur unrhyw effeithiau negyddol. Bydd y Fforwm Partneriaeth Ardoll yn cynnwys cynrychiolaeth gan bartneriaid allweddol, y sector a chymunedau.

**15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?**

Na fydd

**Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau**

Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon.

**16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a**

**meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?**

Bydd monitro parhaol o weithredu'r Ardoll gan Swyddogion Cyngor Gwynedd ac hefyd o fewn i Fforwm Partneriaeth Ardoll Gwynedd os oes penderfyniad i fwrw ymlaen.

Disgwylir y bydd adolygiad ffurfiol o'r Ardoll a'i gyfraniad i Gynllun Gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035 yn flynyddol gan y Fforwm Partneriaeth Ardoll ac o fewn i strwythur rheoli Partneriaeth G&E2035.

Byddwn yn ail-ymweld â'r asesiad effaith yma yn flynyddol ond yn fwy aml na hynny os oes materion yn codi o ymgysylltiadau neu waith arall.

**17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Bydd unrhyw adborth o'r broses ymgynghori yn cael ei ystyried wrth lunio'r asesiad effaith terfynol cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud yn y Cyngor Llawn.

Mae Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 yn cynnwys amrediad o fesurau newydd wedi eu hadnabod i'n galluogi i fesur effaith yr economi ymweld ar nifer o feysydd.

Bwriedir monitro gweithrediad yr Ardoll yng Ngwynedd pe byddai'n cael ei fabwysiadu ar sail faint o arian a gesglir yn lleol a sut y buddsoddir yr arian hwnnw yn yr ardal er lles ein cymunedau, ein busnesau a'r amgylchedd leol.

Trwy sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll byddwn yn trafod blaenoriaethau buddsoddi ac unrhyw faterion allai godi ynghylch yr ardoll ynghylch canlyniadau anghyfartal neu sgil-effeithiau negyddol ac yn medru addasu a newid blaenoriaethau a thrywydd pe byddai angen.

**18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Mae blaenoriaethau buddsoddi'r Ardoll yn enwi'r Gymraeg a diwylliant Cymru fel meysydd blaenoriaeth. Gallai'r Ardoll gefnogi:

- Ymgyrchoedd i hybu diwylliant a'r Gymraeg
- Cefnogaeth naws am le a Chynnig Cymraeg i fusnesau trwy hyfforddiant
- Prosiectau i warchod treftadaeth ddiwylliannol adeiledig a byw
- Cefnogaeth i'r Safle Treftadaeth Byd Tirlun Llechi a'i weithgareddau
- Cefnogi rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol
- Cefnogi cymunedau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg

**19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?**

Oes

## CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

**20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:**

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer ond gydag addasiadau i wella neu i gael gwared o'r meysydd o effaith andwyol a nodwyd yng Ngham 4

## CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Fesur

**21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Amserlen | Cyfrifoldeb Arweiniol | Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|
| Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus | Mai - Gorffennaf 2026 | Un tro | Roland Evans | Ia |
| Addasu'r Asesiad Effaith | Medi 2026 | parhaol | Roland Evans | Ia |

**22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:**

| **Trefniadau Monitro ac Adolygu** (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi) | Amserlen ac Amlder | Cyfrifoldeb Arweiniol | Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| Asesiad blynyddol ym Mhartneriaeth Gwynedd & Eryri 2035 | Blynyddol | Roland Evans | Ia |